

'Sdim Curo Plant!
Children are Unbeatable! Cymru

Mae curo plant yn anghywir a dylai'r gyfraith ddweud



Mae Cyngwrair 'Sdim Curo Plant! (SCP! Cymru) yn ceisio gwahardd pob cosb gorfforol i blant yng Nghymru, ynghyd â chefnogi dulliau cadarnhaol o fagu plant. Ar hyn o bryd mae'r gyfraith yn golygu bod modd i rieni ac eraill gyfiawnhau ymosodiad cyffredin fel "cosb resymol". Mae'r gyfraith hon yn anghyfiawn, yn anniogel ac yn ddiangen, ac mae rhaid ei dileu. Rydym yn annog y Llywodraeth i gyflawni ei hymrwymiad i hawliau plant a gwneud Cymru yn "barth dim smacio" cyntaf y DU.

Gall Cymru roi arweiniad!

"Ym mis Hydref, cynhaliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru drafodaeth lawn a phleidlais ar gynnig ynghylch yr angen am ddileu amddiffyniad 'cosb resymol'. Roeddwn yn eithriadol o falch bod y mater pwysig hwn yn ôl mewn lle amlwg ar yr agenda wleidyddol, ac yn fwy balch byth bod y Cynulliad wedi pleidleisio dros y cynnig" Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, adroddiad blynyddol 2012

Cymru – pencampwr y plant



Yn ystod y degawd diwethaf mae Cymru wedi arwain y DU ym maes hyrwyddo hawliau plant:

- Cymru oedd y wlad gyntaf i wahardd smacio ym mhob gofal blynyddoedd cynnar;
- Cymru oedd y wlad gyntaf i gynnwys plant yn y diffiniad o drais domestig;
- Cymru oedd y wlad gyntaf i benodi Comisiynydd Plant;
- Cymru oedd y wlad gyntaf i wneud y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn rhan annatod o'r gyfraith a llunio polisi.

Yn 2009 dywedodd Llywodraeth Cymru:

“Rydym yn derbyn argymhelliad Pwyllgor y CU y dylid dileu amddiffyniad cosb resymol fel bod modd i blant a phobl ifanc fwynhau'r un lefel o amddiffyniad ag oedolion o dan y gyfraith.”

Nid oedd gan Lywodraethau Cymru yn flaenorol bŵer deddfwriaethol i gymryd y cam hwn, ond ym mis Hydref 2011 cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru fod hynny bellach yn bosibl:

*“Barn Gweinidogion Cymru yw y byddai'n bosibl i ddeddfwriaeth gael ei phasio gan y Cynulliad... gyda'r effaith o ddileu amddiffyniad cosb resymol yn yr achosion hynny lle mae'n dal i gael ei ddefnyddio yng nghyswllt trosedd ymosod ar blentyn.”*¹²

Ar 19 Hydref 2011 pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol trwy fwyafrif trawsbleidiol o 24 i 15, er mwyn annog y Llywodraeth i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Ataliodd gweinidogion y Llywodraeth eu pleidlais.

Neges 'SCP! Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol yw: **O'r diwedd gallwch gyflawni'r hen addewid i blant Cymru, a gwahardd smacio – peidiwch â'u siomi!**

Cwestiynau cyffredin

Oni fydd hyn yn troseddoli rhieni da sy'n smacio eu plant?

Ar hyn o bryd ymchwilir i bob ymosodiad ar blant y cawn wybod amdano, ond nid erlynir am smacio ysgafn, ac ni fydd chwaith yn arwain at achosion gofal. Yn dilyn gwahardd smacio byddai'r sefyllfa yn dal yn union yr un fath. Fel yn achos ymosodiad ysgafn ar oedolyn, byddai smacio ysgafn yn anghyfreithlon, ond ni fyddai erlyniad yn mynd ar ôl yr achosion hynny oni bai bod mantais amlwg i fudd y cyhoedd a'r plentyn.

Onid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol bethau pwysicach i boeni amdanynt, fel yr argyfwng economaidd? Bydd y diwygio hwn yn costio'r nesaf peth i ddim, bydd yn helpu i amddiffyn plant ac yn gweithio gyda rhieni, gan arbed lluo o blant Cymru rhag dioddef poen a sarhad yn ddiangen.

Oni ddylai'r llywodraeth adael bywyd preifat y teulu yn llonydd?

Mae gan rieni ryddid i fagu eu plant yn eu ffordd eu hunain, ond oddi mewn i derfynau. Ar un adeg, roedd taro gwragedd a gweision yn gyfreithlon ac yn dderbyniol; nid yw hynny'n wir bellach. Curo plant yw'r unig ffurf o drais yn y cartref sy'n dal i gael ei ganiatáu.

Onid oes angen gallu smacio pan fydd popeth arall wedi methu, er mwyn atal plentyn rhag rhedeg allan i'r ffordd neu niweidio rhywun? Wrth gwrs dylai rhieni gipio plant o afael perygl, ond does dim angen eu taro wedyn. Ac mae cosbi plentyn yn gorfforol am niweidio rhywun arall yn cyfleu'r neges waethaf bosib. Mae rhieni yn esiampl o ymddygiad, a dylent wneud yr hyn y maent yn ei ddweud.

Onid yw pleidleisiau'n dangos bod mwyafrif y cyhoedd yn gwrthwynebu gwahardd smacio yng Nghymru? Nid oes un wlad wedi gwahardd smacio ar sail cefnogaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, mae agweddau ac arferion rhieni yn newid yn gyflym ar ôl diwygio'r gyfraith. Mae hwn yn fesur, fel gwisgo gwregys diogelwch neu wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus, lle mae rhaid i lywodraethau arwain, yn hytrach na dilyn.

Oni fydd smacio yn dod i ben ohono'i hun os cefnogwn rieni a hybu newid diwylliant? Dywedodd pobl hyn am gosb gorfforol mewn ysgolion, ond nes i'r gyfraith ei gwahardd, daliodd llawer o ysgolion ati i ddefnyddio'r gansen. Mae aros am y foment chwedlonol pryd y bydd smacio yn diflannu yn condemnio cenedlaethau o blant i ddiffastod diangen a diystyru eu hawliau.

Beth sydd o'i le ar smacio?

Risg Dwysáu

Does dim y fath beth â “smacio diogel”. Mae risg y gallai pob achos ddwysáu yn ymosodiad sy'n achosi anaf. Oherwydd nad yw smacio'n gweithio, mae rhai rhieni yn taro'n fwy ffyrnig.¹ Mae ymchwil wedi canfod bod mwyafrif yr achosion o gamdriniaeth gorfforol wedi digwydd yng nghydestun cosb gorfforol.² Hefyd mae rhieni yn tueddu i daro plant mewn dicter neu rwystredigaeth pan na fyddant dan reolaeth.³

Gwneud trais yn dderbyniol

Mae pob smac yn anfon dwy neges i'r plentyn. Y cyntaf yw bod taro yn dull derbyniol o reoli, yr ail yw bod y dioddefydd yn haeddu triniaeth o'r fath. Mae effaith wenwynig i'r ddwy neges, gan eu bod yn cyfrannu at wneud trais yn dderbyniol yn gymdeithasol. Er enghraifft, mae arolygon diweddar yn dangos bod rhwng un o bob pump a hanner o oedolion ifanc yn teimlo ei fod yn dderbyniol i ddynion daro menywod o dan rai amgylchiadau.⁴

Niwed tymor hir

Dengys mynydd o ymchwil fod cosb gorfforol “arferol” yn gysylltiedig â llawer o ymddygiad niweidiol yn ystod plentynod, megis agwedd ymosodol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thramgwyddaeth, yn ogystal â phryder, iselder a hunan-niweidio.⁵ Mae astudiaethau hefyd yn awgrymu

y gall smacio effeithio ar ddatblygiad gwybyddol.⁶ Mae'r effeithiau negyddol yn trosglwyddo i oedolaeth, ac mae cysylltiadau clir rhwng cosb gorfforol yn ystod plentynod ac ymddygiad troseddol, trais domestig, salwch meddwl, cam-drin sylweddau ac ymddygiad rhywiol gorfodol yn ddiweddarach mewn bywyd.⁷

Dyw e ddim yn gweithio

Er y gall smacio atal plentyn yn y tymor byr, ni all ddysgu na symbylu ymddygiad da yn y tymor hir.⁸ Dyw rhieni ddim yn mwynhau smacio.⁹ Mae perthnasoedd rhwng rhieni a phlant, hyd yn oed pan fyddant o dan straen, yn gwella pan fydd smacio yn dod i ben.¹⁰



Hawl dynol pob plentyn

Mae cyrff cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol wedi dweud droeon wrth y Deyrnas Unedig bod rhaid iddi ddileu amddiffyniad “cosb resymol.” Mae’r rhain yn cynnwys:

- Y Pwyllgor ar Hawliau’r Plentyn (dair gwaith: 1995, 2002 a 2008)¹¹
- Y Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ddwywaith: 2002 a 2009)
- Y Pwyllgor ar Ddileu Camwahaniaethu yn erbyn Menywod (2008)
- Y Pwyllgor Ewropeaidd ar Hawliau Cymdeithasol (ddwywaith: 2005 a 2012)

Mae’r DU hefyd wedi derbyn argymhellion sawl tro gan wladwriaethau eraill i wahardd pob cosb gorfforol yn yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol gan y Cyngor Hawliau Dynol yng Ngenefa (2008 a 2012).

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru roi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y CU ar Hawliau’r Plentyn (CHP). Yn 2008, croesawodd Pwyllgor y CHP “ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wahardd pob cosb gorfforol yn y cartref, ond mae’n nodi nad oes modd i’r Cynulliad, o dan delerau datganoli, gyflawni’r ddeddfwriaeth angenrheidiol.”

Ar draws y byd mae 33 o wledydd wedi gwahardd smacio, gan roi hawl i amddiffyniad llawn rhag cosb gorfforol i blant; mae 23 o’r rhain yn Ewrop. Yn yr Undeb Ewropeaidd, mae’r DU yn un o bedair gwlad yn unig sydd heb wahardd smacio na mynegi ymrwymiad i wneud hynny.

Mae holl brif sefydliadau rhianta Cymru yn cefnogi gwahardd smacio, fel y mae llawer o gyrff Cristnogol, Mwslimaidd a rhyng-ffydd.

“Rydym ni yn credu bod deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad “cosb resymol” yn hollbwysig oherwydd bod hynny’n adlewyrchu’r gymdeithas dosturiol, ddi-drais rydym am ei sicrhau i bob plentyn. Bu cosb gorfforol i blant yn rhan gyffredin o’n diwylliant yn rhy hir. Ond mae cosb gorfforol er mwyn disgyblu yn anghydnaws â gwerthoedd crefyddol craidd parch at urddas dynol plant, cyfiawnder a dulliau di-drais. Ni ellir cyfiawnhau’r arfer poenus, bychanol hwn o dan unrhyw amgylchiadau.”

Y Parchedigaf Barry Morgan, Archesgob Cymru a arweinwyd Cristnogol amlwg eraill.

“Hawliau dynol sy’n ein gorfodi i ddiwygio fel hyn: cyflawni hawl plant i barch llawn at eu hurddas dynol, eu hintegriti corfforol, ac amddiffyniad cyfartal o dan y gyfraith. Mae’r DU o dan bwysau cryf iawn i wahardd smacio gan gyrff monitro hawliau dynol yn Ewrop. Tra bod y gyfraith yn parhau i oddef cosb gorfforol, mae rhaglenni addysg rhianta ac ymdrechion eraill i annog rhieni i fabwysiadu dulliau cadarnhaol, di-drais ac effeithiol o ddisgyblu yn cael eu tanseilio’n ddifrifol. A pheryglir diogelwch y lleiafrif o blant y mae eu rhieni’n dal i ddibynnu ar gosb dreisiol.”

Datganiad gan brif sefydliadau rhianta’r DU a Chymru

NODIADAU

● 1 Gershoff, E. T. (2002), *Corporal punishment by parents and associated child behaviors and experiences: A meta-analytic and theoretical review*, Psychological Bulletin, 128(4), 539-579. Dadansoddiad o 88 o astudiaethau ar effeithiau cosb gorfforol (heb gynnwys cosb ‘gamdriniol’) ● 2 Yn fwyaf diweddar: Trocmé N, MacLaurin B, Fallon B, et al. *Canadian Incidence Study of Reported Child Abuse and Neglect: final report*. Ottawa: Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Canada; 2001 a phrif ganfyddiadau’r astudiaeth honno: Major findings, Ottawa: Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Canada; 2005. ● 3 Elliman, D. a Lynch, M. (2000), *The physical punishment of children*, Archives of Disease in Childhood, 83:196–198; Durrant, J. E. et al (2004), *Joint Statement on Physical Punishment of Children and Youth*, Ottawa: Coalition on Physical Punishment of Children and Youth ● 4 Dyfynnwyd yn adroddiad Pwyllgor Materion Cartref Tŷ’r Cyffredin ar *Domestic Violence, Forced Marriage and “Honour”-Based Violence* (chweched adroddiad y sesiwn 2007-08); cyf. 1 NSPCC, *Teen abuse survey of Great Britain* (2005). Dengys yr ymchwil gysylltiadau rhwng cosb gorfforol a cham-drin partner yn ddiweddarach mewn bywyd. ● 5 Gweler nodyn 1. Canfu pob un o’r 27 astudiaeth ar ymosoddedd fod cysylltiad. Durrant, J. ac Ensom, R. (2012), *Physical punishment of children: lessons from 20 years of research*, mae Cyfnodolyn Cymdeithas Feddygol Canada, 6 Chwefror 2012 yn gwrthod y ddamcaniaeth fod plant mwy ymosodol yn cael eu smacio mwy. Canfu 12 o 13 astudiaeth ar ymddygiad gwrthgymdeithasol fod cysylltiad; canfu pob un o’r 12 ar broblemau iechyd meddwl fod cysylltiad. ● 6 Berlin, L. J. et al (2009) *Correlates and Consequences of Spanking and Verbal Punishment for Low-Income White, African American, and Mexican American Toddlers*, Child Development 80(5):1403-1420; MacKenzie, M. J. et al (2011) *Corporal Punishment and Child Behavioural and Cognitive Outcomes through 5 Years of Age: Evidence from a Contemporary Urban Birth Cohort Study*, Infant and Child Development, cyhoeddwyd ar-lein yn Llyfrgell Ar-lein Wiley 25 Hydref 2011. ● 7 Gweler Nodyn 1 ● 8 Gweler Nodyn 1: canfu 3 o 5 astudiaeth gysylltiad â chydymffurfiaeth plant yn y fan a’r lle, ond canfu 13 o 15 nad oedd cosb gorfforol yn cyfrannu at gydymffurfiaeth yn y tymor hir. ● 9 Bunting L, Webb M A a Healy J, In two minds? Parental attitudes toward physical punishment in the UK, Children & Society Cyf. 24 (2010), tt 359-370. ● 10 Gweler Nodyn 1: canfu pob un o’r 13 astudiaeth gysylltiad rhwng cosb gorfforol a dirywiad yn y berthynas rhwng y rhiant a’r plentyn. ● 11 Gweler Sylw Cyffredinol Rhif 8 y Pwyllgor ar Hawliau’r Plentyn (2006) *Hawl y plentyn i amddiffyniad rhag cosb gorfforol a dulliau eraill creulon neu sarhaus o gosbi*. ● 12 Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, at ACau.

Cysylltwch â ‘SCP! Cymru i gael manylion: 25 Plas Winsor, Caerdydd, CF10 3BZ, Ffôn: (029) 2034 2434, Ffacs: (029) 2034 3134, e-bost: cau@childreninwales.org.uk, www.childreninwales.org.uk/areasofwork/